ORCA – Online Research @ Cardiff

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/154708/

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Hopwood, Llewelyn 2021. Hanes dwyieithog Gruffudd ap Cynan a Dadeni'r Ddeuddegfed Ganrif. Llên Cymru 45 (1) , pp. 1-27. 10.16922/lc.45.1

Publishers page: https://doi.org/10.16922/lc.45.1

Please note:
Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See http://orca.cf.ac.uk/policies.html for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.

# Hanes dwyieithog Gruffudd ap Cynan a Dadeni'r Ddeuddegfed Ganrif

LLEWELYN HOPWOOD

*Coleg Corpus Christi, Prifysgol Rhydychen*

Mae *Hanes Gruffudd ap Cynan* yn cofnodi gyrfa sylfaenydd llinach Aberffraw ac mae'n nodedig am ddau reswm.[1] Yn gyntaf, dyma'r unig gofiant lled-gyfoes i dywysog canoloesol o Gymro sydd wedi goroesi. Yn ail, mae'n bodoli mewn dwy fersiwn. Y gwreiddiol yw'r testun Lladin *Vita Griffini Filii Conani* a ysgrifennwyd tua'r 1140au–50au, wedi marwolaeth Gruffudd ym 1137 ac yn ystod blynyddoedd cynnar teyrnasiad ei fab, Owain Gwynedd (t. 1137–70). Ryw drigain mlynedd yn ddiweddarach, pan oedd gor-ŵyr Gruffudd, Llywelyn ab Iorwerth, yn teyrnasu ar ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg, lluniwyd cyfieithiad Cymraeg o'r *Vita*, sef *Historia Gruffudd vab Kenan*.[2]

[1] Hoffwn ddiolch i'r darllenydd dienw am eu sylwadau defnyddiol ac adeiladol ar fersiynau cynharach o'r erthygl hon. Terminoleg: byddaf yn defnyddio '*Vita*' fel term llaw-fer ar gyfer y testun Lladin (*Vita Griffini Filii Conani*), '*Historia*' ar gyfer y testun Cymraeg (*Historia Gruffudd vab Kenan*) a '*Hanes*' neu '*Hanes Gruffudd ap Cynan*' wrth gyfeirio at y bywgraffiad yn gyffredinol, waeth ba fersiwn. Noder, serch hynny, nad teitl testun sydd wedi goroesi yw'r olaf, ond teitl cyfleus i gwmpasu'r fersiynau Cymraeg a Lladin fel grŵp.

[2] Cyfnod cyfansoddi posib y *Vita*, yn ôl Paul Russell, yw 1137–48, ac fe'i seilir ar dri pheth: marwolaeth Gruffudd ap Cynan ym 1137; cyfeiriad cyfredol, yn ôl y testun, at 'fab Harald' ar yr orsedd ym Mhort Láirge (Waterford); a'r cysylltiad agos yn y testun rhwng Gwynedd a Thŷ Ddewi. Dadleuir bod y cyswllt ola'n ymwneud â phwnc llosg a fu'n ddadleuol yn ystod esgobaeth Bernard (m. 1148), sef sicrhau statws metropolitanaidd i'r Eglwys Gadeiriol honno. Yn fwy diweddar, mae J. Beverley Smith wedi dadlau dros ddyddiadau hwyrach, sef 1143–1157, ar sail y tensiwn a fu'n cynyddu ymysg meibion Gruffudd bryd hynny, wedi i un ohonynt, Cadwaladr ap Gruffudd, lofruddio Anarawd ap Gruffudd, etifedd Deheubarth, ym 1143, gan ddryllio cynlluniau ei frawd, y tywysog Owain Gwynedd, i sefydlu cynghrair gydag Anarawd. Ffafria Beverley Smith 1157 fel y dyddiad cyfansoddi, sef pan orfododd y Brenin Harri II i Owain adael Cadwaladr yn ôl i Wynedd ar ôl cyfnod o alltudiaeth wedi'r llofruddiaeth. Mae hyn yn agosach at ddyddiadau D. Simon Evans ar gyfer y testun Cymraeg, sef *c.*1157–*c.*1165. Ond noder bod dyddiadau Evans ar gyfer y testun Lladin, sef trydydd chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg, yn dipyn hwyrach. Mae hyn oherwydd yr oedd yn dilyn cred gyfredol ei gyfnod sef mai trosiad modern cynnar o'r *Historia* oedd yn y copi cynharaf o'r testun Lladin a oroeswyd, sef Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llsgr. Peniarth 434 (trydydd chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg), nid copi o'r testun Lladin canoloesol, gwreiddiol, fel y profodd Paul Russell. Gw. *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. a chyf. D. Simon Evans (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1977), tt. ccxliii–ccxlix, ccli–cclxxxiv (yn enwedig t. cclxxiv); *Vita Griffini Filii Conani: The Medieval Latin Life of Gruffudd ap Cynan*, gol. a chyf. Paul Russell (Cardiff: University of Wales Press, 2005), tt. 41–9; J. Beverley Smith, 'The Biography of Gruffudd ap Cynan: Literary Form and Historical Interpretation', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 29.3 (2019), 337–376 (365–69) Trafodir hanes y llawysgrifau yn fanylach isod.

Dyma gyfnod o newid cymdeithasol a deallusol sylweddol ar draws Ewrop a elwir yn 'Ddadeni'r Ddeuddegfed Ganrif'.[3] At hynny, dyma bennod newydd yn hanes Gwynedd a Chymru a bu Gruffudd ap Cynan yn ei chanol; pennod y gellir ei disgrifio'n un ryngwladol, yn un a welodd ymchwydd mewn arglwyddiaethau a sefydliadau o dramor – y Normaniaid yn bennaf – ac yn un a welodd gamau cyntaf gwladwriaeth gyfunol Gymreig newydd a barodd hyd at Oresgyniad Edward I. Egyr D. Simon Evans ei astudiaeth o fersiwn Gymraeg yr *Hanes*, *Historia Gruffudd vab Kenan*, gan dynnu ein sylw'n benodol at y newid hwn:

> Mae'r ymchwil am Gruffudd ap Cynan yn ein tywys yn ôl i gyfnod o newid yn hanes Cymru, a hefyd yn hanes y byd mawr o'r tu allan. Rhaid chwilio am helyntion yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed, pryd y gwelir cychwyn ar fudiadau a dulliau newydd. Hwn yw y gwirionedd cyntaf a'r pwysicaf o ddigon y mae'n rhaid ei gydnabod er mwyn ceisio deall arwyddocâd gyrfa hanes y tywysog yma.[4]

Hyd yn hyn, nid yw'r gwahaniaeth a'r tebygrwydd rhwng fersiynau Lladin a Chymraeg *Hanes Gruffudd ap Cynan* wedi derbyn dadansoddiad llawn, ac yn sicr nid yng ngoleuni cysylltiad Cymru â Dadeni'r Ddeuddegfed Ganrif. Bwriad yr erthygl hon, felly, yw ymateb i anogaeth D. Simon Evans drwy ystyried y dulliau llenyddol a'r agweddau deallusol newydd oedd ar droed yn ystod y cyfnod cyfansoddi o ran eu heffeithiau ar y modd y lluniwyd y cofiant yn y Lladin a'r Gymraeg. Yn syml, byddaf yn cymharu *Vita Griffini Filii Conani* a *Historia Gruffudd vab Kenan* gan ddadansoddi effaith Dadeni'r Ddeuddegfed Ganrif arnynt.

Un o nodweddion pennaf y dadeni hwn oedd y modd y blodeuodd ffuglen lenyddol. Gwelwn yn fanylach yn y man mai'r tueddiad ymhlith ysgolheigion yw ystyried mai yn llenyddiaeth yr ieithoedd brodorol yn unig y bu'r blodeuo hwn ac nid yn Lladin: perthyn

---

[3] Ar y ffenomen hon gweler y gwaith a'i labelodd felly, sef Charles Homer Haskins, *The Renaissance of the Twelfth Century*, pedwerydd argraffiad (New York: Meridian Books, 1960), ac yn fwy diweddar *European Transformations – the Long Twelfth Century*, gol. Thomas F. X. Noble a John H. van Engen (Notre Dame, Ind.: University of Notre Dame Press, 2012).

[4] *Historia*, t. xi.

ffuglen y cyfnod i'r ieithoedd brodorol a'r ffeithiol i Ladin.[5] Fodd bynnag, dengys Monika Otter yn ei hastudiaeth o weithiau hanesyddol Lladin y ddeuddegfed ganrif nad yw hyn yn gwbl ddilys. Gan ehangu ar waith Paul Ricœur a Richard M. Gale, mae Otter yn datblygu dyfais i ddadansoddi hanesyddoldeb neu ffuglenoldeb holl destunau hanesyddiaeth y cyfnod, waeth bynnag yr iaith, gan ei galw yn 'continuum of historical writing from "most referential" to "least referential"'; fe'i geilw hefyd yn 'spectrum' ac 'a sliding scale from "more fictional" to "less fictional"'.[6] At ddibenion yr ymchwil hwn, rwyf wedi bathu'r term Cymraeg 'sbectrwm ffuglennol-gyfeiriadol' i ddisgrifio'r cysyniad. Graddfa symudol yw'r ddyfais i helpu dynodi pa mor ffuglennol yr ystyrid testun canoloesol gan ddarllenwyr a gwrandawyr yr oes. Byddai testun â chryn dipyn o gyfeirio cynradd, uniongyrchol at y byd go iawn 'y tu allan i'r testun', megis, yn cael ei ystyried yn ffeithiol ac nid yn ffuglennol o gwbl; dyma destun 'cyfeiriadol' ('referential'). Byddai testun heb yr un cyfeiriad cynradd, allanol, neu â chrynodiad uchel o hunangyfeirio – h.y. cyfeirio at y ffaith mai stori ddyfeisiedig, ysgrifenedig ydyw – yn cael ei ystyried yn ffuglen; dyma destun 'ffuglennol' ('fictional').

Mae ysgrifau hanesyddol yn gyfeiriadol ar y cyfan gan mai cofnod o ddigwyddiadau yn y byd allanol ydynt, nid digwyddiadau a ddyfeisiwyd tu fewn i fyd y stori. Ond diben sbectrwm Monika Otter yw nad yw hyn yn golygu fod ysgrifau hanesyddol 'cyfeiriadol' heb

---

[5] E.e. Franz H. Bäuml, 'Varieties and Consequences of Medieval Literacy and Illiteracy', *Speculum*, 55 (1980), 237–65; Peter Haidu, 'Repetition: Modern Reflections on Medieval Aesthetics', *Modern Language Notes*, 92 (1977), 875–87; Walter Haug, *Literaturtheorie im deutschen Mittelalter von den Anfängen bis zum Ende des 13. Jahrhunderts: Eine Einführung* (Darmstadt: Wissenschaftliche Buchgesellschaft, 1985). Dyma'r cefndir ysgolheigaidd i brosiect ymchwil presennol Rosalind Love sy'n edrych ar yr hanesion Arthuraidd Lladin gan holi pam nad oeddent mor boblogaidd â'r rhai Saesneg a Ffrangeg: 'Twelfth-century readers were hungry for texts in their native languages telling of romance and adventure, while Latin, especially prose narratives or epic poems, seemed too bound up with old ways and dull themes.' Rosalind Love a Francesco Marzella, 'Latin Arthurian Literature and the Rise of Fiction', *Leverhulme Trust* <https://www.leverhulme.ac.uk/research-project-grants/latin-arthurian-literature-and-rise-fiction> [cyrchwyd 4 Chwefror 2022].

[6] Monika Otter, *Inventiones: Fiction and Referentiality in Twelfth-Century English Historical Writing* (Chapel Hill and London: University of North Carolina Press, 1996), tt. 19, 12; Paul Ricœur, *The Rule of Metaphor: Multidisciplinary Studies of the Creation of Meaning in Language*, cyf. Robert Czerny gyda Kathleen McLaughlin a John Costello (Toronto: University of Toronto Press, 1977); Paul Ricœur, *Interpretation Theory: Discourse and the Surplus of Meaning* (Fort Worth, TX: Texas Christian University Press, 1976); Richard M. Gale, 'The Fictive Use of Language', *Philosophy*, 46 (1971), 324–40.

unrhyw agweddau ‘ffuglennol’; gall yr ysgrifau symud tua’r pegwn ffuglennol ‘dros dro’ fel petai drwy gynnwys golygfeydd rhyfeddol, cyn symud yn ôl i’w safle ‘cyfeiriadol’ arferol. Ail ddiben y sbectrwm yw tanseilio’r gred fod y ffuglennol yn perthyn i’r ieithoedd brodorol yn unig. Fel yn achos testunau hanesyddol, dengys nad oes rhaid i destunau Lladin fod yn gwbl gyfeiriadol ac y gallant symud ar hyd y sbectrwm ffuglennol-gyfeiriadol yr un mor hawdd â thestunau mewn iaith frodorol neu destunau nad ydynt yn hanesyddol megis chwedlau.

Felly, gan ddefnyddio dyfais Otter i drafod rhychwant o destunau hanesyddol yn Lladin a’r iaith frodorol – Lladin yn unig sydd yn ei hastudiaeth hithau – fy mwriad yw cymharu fersiynau Lladin a Chymraeg *Hanes Gruffudd ap Cynan* drwy eu mapio ar hyd sbectrwm o’r fath. Mantais darllen yr *Hanes* yn y modd hwn yw y bydd yn ein galluogi i ystyried y gwahaniaethau cynnil rhwng Cymraeg llenyddol yr *Historia* a Lladin llenyddol y *Vita* mewn graddfeydd ar hyd un continwwm cyffredin.

Diddorol yw nodi ar y cychwyn na fyddai’r fath gymhariaeth wedi bod yn bosibl tan yn lled ddiweddar. Am gyfnod maith, credid bod y *Vita* Ladin wreiddiol wedi ei cholli. Nid oes yr un llawysgrif ganoloesol o’r testun hwnnw yn bodoli, a dim ond un testun canoloesol anghyflawn o’r *Historia* Cymraeg Canol sydd wedi goroesi.[7] Yn sgil twf mewn diddordeb yn hanes Gruffudd ap Cynan yn yr unfed ganrif ar bymtheg, cynhyrchwyd o leiaf ddeuddeg copi pellach o’r fersiwn Gymraeg a arweiniodd yn ei dro at ‘gyfieithiad’ Lladin sy’n goroesi mewn o leiaf deg copi. Y gred oedd mai cyfieithiad o’r copïau Cymraeg Modern Cynnar hyn oedd y fersiynau Lladin. Fodd bynnag, datgelodd Paul Russell nad dyma’r achos gan brofi mai copi o’r bywgraffiad Lladin canoloesol colledig oedd y cynharaf o’r copïau Lladin, Peniarth 434 (1575 x 85), ac nid cyfieithiad o’r Gymraeg o gwbl.[8] Gyda hyn, daeth hi’n bosib

[7] Sef Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llsgr. Peniarth 17, tt. 1–16 (dyddiwyd i ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg).
[8] *Vita*, tt. 1–4; Peniarth 434.

cymharu testunau'r *Vita* Ladin a'r *Historia* Cymraeg a sylwn nad yw'r ail destun yn gyfieithiad syml ac union o'r cyntaf a'i fod yn cynnwys sawl ehangiad ac addasiad, ac addasiadau arddull yn flaenaf oll.

O ran cynnwys, mae'r ddwy fersiwn bron yn holl debyg; bydd y gwahaniaethau, er mor brin, yn cael sylw yng nghorff yr erthygl hon. Swmp y ddau destun yw crynodeb o ymdrechion Gruffudd, dros gyfnod o bum mlynedd ar hugain, i feddiannu teyrnas Gwynedd. Dilynir hyn gan adran fechan sy'n sôn am ei deyrnasiad heddychlon wedi hynny. Cychwynna'r naratif gan osod allan ei hawl gynhenid i'r orsedd yn rhinwedd ei linach frenhinol Wyndodaidd-Frythonaidd ar ochr ei dad (Rhodri Mawr, brenin o'r nawfed ganrif, a Brutus, sylfaenydd chwedlonol Prydain) a'i linach frenhinol Sgandinafaidd a Gwyddelig ar ochr ei fam; dyma fanylion am fywyd Gruffudd sy'n unigryw i'r *Hanes*.[9] Sonnir am ei fagwraeth yn Sord Cholmcille ger Dulyn a sut y daw'n ymwybodol yno fod ei deyrnas dreftadol wedi ei goresgyn gan Drahaearn ap Caradog, ymhonnwr o Bowys. Ceisia felly gymorth brenin Gwyddelig dienw i'w helpu i adfeddiannu ei deyrnas. Nesaf, clywn am gyfres o ymgyrchoedd sy'n gyrru Gruffudd yn ôl ac ymlaen rhwng Iwerddon a Chymru wrth iddo encilio a dychwelyd. Y gornestau hyn yw prif ffocws y bywgraffiad a chanolbwynt y cwbl yw brwydr arwyddocaol Mynydd Carn, lle gorchfygir Trahaearn â chymorth Rhys ap Tewdwr, tywysog y Deheubarth. Mae brad, ysbail, caethiwed a rhyddid yn frith drwy'r holl destun a daw i derfyn gan bortreadu tywysog cyfiawn a dwyfol sy'n byw'n heddychlon ochr yn ochr â brenin Lloegr ac yn sicrhau sefydlogrwydd a llewyrch i'w deyrnas.

Wedi amlinellu'r cynnwys a chyn troi at ddadansoddi'r manylion, bydd ystyried newidiadau llenyddol Dadeni'r Ddeuddegfed Ganrif yn Ewrop a'u perthynas â Chymru yn

[9] Mae'r rhain yn fanylion arwyddocaol wrth gofio pwysigrwydd llinach i hawl brenhinol Gruffudd, fel y noda R. R. Davies yn *Conquest, Coexistence, and Change: Wales 1063–1415* (Oxford: Clarendon Press, 1987), t. 58: 'Gruffudd's ultimate claim to power lay not in his prowess and victories but in the fact that he was descended "of royal stock and of exalted lineages"'; Huw Pryce, 'Gruffudd ap Cynan (1054/5–1137)', *Oxford Dictionary of National Biography* <http://www.oxforddnb.com/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-11693> [cyrchwyd 4 Chwefror 2022].

taflu golau ar *Fywyd Gruffudd ap Cynan* ac ar resymau posibl dros y cyferbyniad rhwng y fersiynau Cymraeg a Lladin. Prif linynnau llenyddol y dadeni hwn yw genres barddoniaeth, bucheddau saint, hanesyddiaeth, a bywgraffiadau seciwlar, a'r twf mewn llenyddiaeth yn yr ieithoedd brodorol.[10] Mae'r rhain oll yn berthnasol i'r *Hanes* ac felly rhown sylw iddynt isod fesul un.

Ystyriwn genre barddoniaeth yn gyntaf, oherwydd er nad oes braidd dim yn nhestunau *Hanes Gruffudd ap Cynan*, dyma gwlwm cyntaf llenyddiaeth yr iaith Gymraeg â Dadeni'r Ddeuddegfed Ganrif. Yr unig gerdd i Gruffudd ap Cynan sydd wedi goroesi yw'r farwnad gan Meilyr Brydydd (*fl.* 1100–1137).[11] Roedd Meilyr yn un o 'Feirdd y Tywysogion', neu'r 'Gogynfeirdd' fel y'u gelwir oddi ar y Cyfnod Modern Cynnar. Hanfod yr ail derm hwn yw disgrifio eu perthynas â'u rhagflaenwyr, y 'Cynfeirdd', sef efelychu ac ailddyfeisio eu barddoniaeth nhw. Yn ôl D. Simon Evans, gan ddilyn J. Lloyd-Jones a J. E. Lloyd mae'n debyg, dyma waith adfywio traddodiad sy'n ymgorffori ysbryd y Dadeni dan sylw.[12]

Yn yr ail linyn, sef bucheddau saint, ceir cysylltiad rhwng elfen gyfiawnhaol y bucheddau a'r testun dan sylw. Yn rhannol, roedd testunau eglwysig megis y rhai yn Llyfr Llandaf a bucheddau Cadog, Illtud, a Dewi yn ceisio cyfiawnhau teitlau, hawliau tir a breintiau'r mynachdai perthnasol drwy weithio cadwyn hanesyddol ddi-dor. Yn hynny o beth, roeddynt yn cyd-fynd â geiriau Chris Wickham: 'the past is remembered in order to

---

[10] Noder mai cryfhad o draddodiad y ganrif flaenorol sydd yma yn achos bucheddau'r saint.

[11] Meilyr Brydydd, *Gwaith Meilyr Brydydd a'i ddisgynyddion*, gol. J. E. Caerwyn Williams a Peredur I. Lynch (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992), tt. 71–97.

[12] *Historia*, tt. liv–lv; J. Lloyd-Jones, 'The Court Poems of the Welsh Princes', *Proceedings of the British Academy*, 34 (1948), 167–197 (168); J. E. Lloyd, *A History of Wales: From the Earliest Times to the Edwardian Conquest*, 2 gyfrol (London: Longmans, 1911), II, tt. 523–35. Noder, fodd bynnag, fod y syniad o adfywiad llenyddol ym marddoniaeth Gymraeg y ddeuddegfed ganrif ychydig yn ansicr. Er gwaetha'r berthynas fydryddol a thematig rhwng gwaith y 'Cynfeirdd' a 'Beirdd y Tywysogion', gellir holi ai adfywiad ynteu parhad sydd i'w weld yma. Gall fod y bwlch cronolegol mawr rhwng gwaith y ddau glwstwr o feirdd yn ganlyniad i hap a damwain yr hyn a gofnodwyd ac a oroesodd ar femrwn, felly ni wyddom union berthynas y 'Gogynfeirdd' â'u rhagflaenwyr.

legitimate activity in the present'.[13] Mae hyn yn atseinio naws gyfiawnhaol *Hanes Gruffudd ap Cynan* wrth i'r awdur bwysleisio hawl llinach Aberffraw ar orsedd Gwynedd a'i goruchafiaeth dros Gymru gyfan. Un o'r ychydig wahaniaethau mewn cynnwys rhwng *Historia* Gymraeg y drydedd ganrif ar ddeg a *Vita* Ladin y ddeuddegfed yw'r sylw dyrchafedig a roddir i Wynedd yn y fersiwn Gymraeg, gan awgrymu i'r angen i gyfiawnhau gynyddu gyda threigl amser.

Y trydydd llinyn ar ein rhestr yw gwythïen fywiocaf y Dadeni sy'n llifo trwy *Hanes Gruffudd ap Cynan*, sef hanesyddiaeth seciwlar. Yn ôl Charles Homer Haskins, yr ysgolhaig cyntaf i ddiffinio'r cyfnod fel un o 'ddadeni', 'one of the best expressions of the intellectual revival of the twelfth century is to be seen in the writing of history'.[14] Uchafbwynt y math hwn ar lenyddiaeth yn yr iaith Gymraeg yw croniclau *Brut y Tywysogyon*, sydd, fel mae'n digwydd, yn cynnig ffynhonnell arall i hanes Gruffudd ap Cynan.[15] Mae'r *Brut* yn achos tebyg o gyfieithiadau Cymraeg o destun Lladin coll, ac yn hwnnw cofnodir hanes Cymru rhwng 682 a 1282 fesul blwyddyn gan ddilyn patrwm yr ysgrifau patristig yn hytrach na phatrwm yr haneswyr clasurol.[16] Yn nhestunau *Hanes Gruffudd ap Cynan*, fodd bynnag, synhwyrwn ddylanwad yr haneswyr clasurol.

Ynghlwm wrth y llinyn hwn, dyma ystyried pedwerydd llinyn llenyddol y Dadeni, sef bywgraffiadau seciwlar. Cyn *Hanes* Gruffudd, roedd y fath fywgraffiad yn ddieithr i ysgrifau Cymraeg, hyd y gwyddom. Bucheddau saint oedd y math mwyaf poblogaidd ar ysgrifennu

---

[13] Chris Wickham, 'Lawyers' Time, History and Memory in Tenth- and Eleventh-Century Italy', yn *Studies in Medieval History Presented to R. H. C. Davis*, gol. Henry Mary-Harting a R. I. Moore (London: Hambledon Press, 1985), tt. 53–71 (tt. 66–8). Gw. hefyd R. W. Southern, 'Presidential Address: Aspects of the European Tradition of Historical Writing: 4. The Sense of the Past', *Transactions of the Royal Historical Society*, 23 (1973), 243–263.

[14] Haskins, *The Renaissance of the Twelfth Century*, t. 224; Gw. hefyd Christopher Brooke, *The Twelfth Century Renaissance* (London: Thames and Hudson, 1969), t. 71.

[15] *Brut y tywysogyon or The chronicle of the princes: Red Book of Hergest version*, gol. a chyf. Thomas Jones, ail argraffiad (Cardiff: University of Wales Press, 1973). Am ysgrifau cyfredol ym maes y croniclau Cymreig canoloesol, gw. *The Chronicles of Medieval Wales and the March: New Contexts, Studies and Texts*, gol. Ben Guy et al. (Turnhout: Brepols, 2020) a'r wefan gysylltiedig: *Grŵp Ymchwil y Croniclau Cymreig* <http://croniclau.bangor.ac.uk/> [cyrchwyd 4 Chwefror 2022].

[16] *Historia*, t. li.

bywgraffiadol yn yr Oesoedd Canol yng Nghymru, ond y bywgraffiad seciwlar oedd y model a ddefnyddiodd awdur yr *Hanes*. Yn benodol, trodd yr hanesydd hwn ei olygon at y ffurf glasurol a fewnforiwyd o'r cyfandir ac a oedd â'i gwreiddiau yng ngwaith yr hanesydd Rhufeinig, Suetonius. Copïwyd gwaith Suetonius yn eang yn ystod y ddeuddegfed ganrif ac roedd yn un o ffefrynnau'r athronydd Ioannis Saresberiensis (Ieuan o Gaersallog, diwedd y 1110au–1180). Er nad yw Haskins yn gweld dylanwad Suetonius yn gryf ar y don newydd o ysgrifennu hanesyddol – Lucan, er enghraifft, oedd model yr hanesydd Abad Suger, nid Suetonius – ymddengys yn ddiamheuol mai hwn oedd model bywgraffiad Gruffudd.[17] Mae'r *Hanes* yn cynnwys adrannau clir sy'n cyfateb yn fanwl i adrannau nodweddiadol Suetonius – llinach, ieuenctid, materion mewnol, nodweddion corfforol, teulu, gwaith, marwolaeth – fel y gwna bywgraffiadau seciwlar eraill megis y *Gesta Regum Anglorum* gan Willelmus Malmesbiriensis (William of Malmesbury, *c.* 1090–*c.* 1143) a chyn hynny *Vita Karoli Magni* gan Einhard (*c.* 770–840).[18] Yn hyn o beth, ymddengys fod honiad awdur y *Vita* ei fod am sôn am weithredoedd Gruffudd 'antiquorum more' ('yn null yr Hynafiaid') yn dangos ei fod yn ymwybodol o'r ffaith ei fod yn llunio bywgraffiad a oedd yn dilyn hen batrwm clasurol.[19] Mae'r patrwm hwn yn ei dro yn caniatáu sawl paralel amlwg â chymeriadau clasurol a Beiblaidd, o Alecsander Fawr ac Iŵl Cesfar i'r Brenin Dafydd a Jiwdas Maccabeus.[20]

Llinyn olaf y Dadeni sy'n berthnasol i *Fywyd Gruffudd ap Cynan*, yn enwedig y testun Cymraeg, yw twf llenyddiaeth mewn ieithoedd brodorol. Yn sgil cynnydd llythrennedd, ac wrth i ambell fenter ddeallusol ddod yn fwyfwy seciwlar, daeth llenyddiaeth

---

[17] Haskins, *The Renaissance of the Twelfth Century*, tt. 226, 232.
[18] *Genus*, *initiae*, *res internae*, *propria corporis*, *familia*, *opera*, *mors*. 'Syfrdanol' yw'r cyfateb hwn yn ôl J. Beverley Smith, *Yr Ymwybod â Hanes yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol: Darlith Agoriadol = The Sense of History in Medieval Wales: An Inaugural Lecture* (Aberystwyth: Coleg Prifysgol Cymru, 1991), t. 6; Gw. hefyd 'The Biography of Gruffudd ap Cynan: Literary Form and Historical Interpretation', 343–47, a Joan Gluckauf Haahr, 'William of Malmesbury's Roman Models: Suetonius and Lucan', yn *The Classics in the Middle Ages: Papers of the Twentieth Annual Conference of the Center for Medieval and Early Renaissance Studies*, gol. Aldo S. Bernardo a Saul Levin (Binghamton, N.Y.: Center for Medieval & Early Renaissance Studies, 1990), tt. 165–173.
[19] *Vita*, §8.3.
[20] *Vita*, tt. 38, 48–9.

yn yr iaith frodorol i'w blodau yn ystod y ganrif hon. Elfen nodedig o'r llenyddiaeth hon – er nad yw'n agwedd neilltuol, fel y gwelir isod – oedd golygfeydd ffuglennol. Cofiwn ein diffiniad o 'ffuglennol', ac felly dyma olygfeydd sydd heb gysylltiad diamwys â'r byd allanol neu sydd yn cyfeirio at y ffaith mai storïau ydynt; golygfeydd sydd yn gwbl anghyfeiriadol, o ran cyfeiriadaeth allanol, neu/ac yn hunangyfeiriadol.[21]

Ar y mater hwn, mewn un ystyr, mae'r honiad gan haneswyr ail hanner y ganrif ddiwethaf y soniwyd amdano eisoes, sef bod llenyddiaeth ffuglennol y cyfnod fel petai wedi ei neilltuo ar gyfer yr ieithoedd brodorol, yn ddilys.[22] Ceir tystiolaeth ddiamheuol bod mwy o olygfeydd llwyr anghyfeiriadol neu hunangyfeiriadol i'w canfod mewn llenyddiaeth ieithoedd brodorol o'u cymharu ag ysgrifau Lladin. Ymddengys fod dealltwriaeth, i bob pwrpas, ynghylch y modd yr oedd rhai genres yn perthyn i dir Lladin a rhai i dir yr iaith frodorol. Er enghraifft, er gwaethaf poblogrwydd *De Gestis Britonum* Sieffre o Fynwy, beirniadwyd Sieffre yn hallt gan haneswyr yr oes megis Guillelmus Neubrigensis (William of Newburgh, 1135/6–1198 neu wedi hynny), nid oherwydd bod ei waith yn cynnwys sawl golygfa ffuglennol ac anhygoel, ond oherwydd ei fod wedi gwneud gwall categori wrth roi'r fath gynnwys mewn testun hanesyddol *Lladin*.[23] Mae Guillelmus yn ei feirniadu 'am ei fod wedi cymryd chwedlau Arthur o hen hanesion y Brythoniaid ac ychwanegu atynt ei hun, a, *thrwy addurn yr iaith Ladin a ychwanegodd*, wedi eu mantellu â theitl anrhydeddus "hanes"'.[24] Mynegi ffuglen drwy'r Lladin oedd y broblem.

Serch hynny, profa sbectrwm ffuglennol-gyfeiriadol Monika Otter nad yw'r gwahaniaeth rhwng 'ffuglen yn yr ieithoedd brodorol' a 'ffaith yn y Lladin' yn ddu a gwyn.

---

[21] Otter, *Inventiones*, tt. 1–19.
[22] Gw. n. 5.
[23] William A. Davenport, *Medieval Narrative: An Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2004), t. 93.
[24] Myfi biau'r italeiddio a'r cyfieithu i'r Gymraeg ym mhob dyfyniad. 'pro eo quod fabulas de Arturo, ex priscis Britonum figmentis sumptas et ex proprio auctas, *per superductum Latini sermonis colorem* honesto historiae nomine palliavit', Guillelmus Neubrigensis (William of Newburgh), *Historia rerum Anglicarum* (Turnhout: Brepols, 2014), i, 11.

Gan gadw golwg ar yr agweddau uchod ar Ddadeni'r Ddeuddegfed Ganrif, a chyn symud ymlaen i roi sylw pellach i'r gwahaniaethau rhwng testunau ein trafodaeth, oedwn eto gyda'r ddyfais hon. Cofiwn mai lleoli testunau hanesyddol ar raddfa symudol rhwng pegwn 'cyfeiriadol' a phegwn 'ffuglennol' yw diben sbectrwm Otter.[25] Dychwelwn felly at y cysyniad fod testun yn symud tua'r pegwn ffuglennol pan fo ei 'gyfeiriadoldeb' ('referentiality') yn lleihau; digwydd hyn pan nad yw'r testun yn honni ei fod yn wir – 'a complete lack of […] or thorough subversion of […] a truth claim' – neu pan nad yw'n cyfeirio at amser na gofod allanol sydd y 'tu hwnt i'r testun'.[26] Ar begwn 'cyfeiriadol' y sbectrwm, ceir testunau megis gwaith Lladin Willelmus Malmesbiriensis neu Guillelmus Neubrigensis sy'n cynnwys crynodiad uchel o'r math hwn ar gyfeiriadaeth: datganiadau ynghylch geirwiredd y testun a chyfeiriadau cynradd i'r byd allanol. Ar begwn ffuglennol y raddfa ceir golygfeydd sydd heb y fath ddatganiadau o wirionedd, heb gyfeiriadaeth allanol neu sydd yn hunangyfeiriadol ac felly'n hunanymwybodol ffuglennol. Daw'r rhain i'r wyneb gan amlaf mewn rhamantau ieithoedd brodorol fel rhai Chrétien de Troyes neu sawl stori yn y *Mabinogion*, er enghraifft y diflaniadau estron yn y Drydedd Gainc sy'n cymryd lle mewn rhyw Gymru anghyfarwydd o'r gorffennol pell ac sy'n gorffen, fel pob cainc, gan gyfeirio at ei hun fel stori: 'Ac yuelly y teruyna y geing honn yma o'r Mabinogy'.[27] Ond y peth i'w gofio yw y gellir hefyd weld y fath olygfeydd, er ar raddfa lai, mewn gweithiau Lladin ac mewn gweithiau Lladin hanesyddol fel rhai Gerallt Gymro, Sieffre o Fynwy neu Gwallter Map.[28]

Nesaf, felly, ceisiaf fapio'r modd y mae fersiynau Cymraeg a Lladin *Hanes Gruffudd ap Cynan* yn symud yn ôl ac ymlaen ar y sbectrwm ffuglennol-gyfeiriadol. Gwnaf hyn drwy ystyried y teitlau, y bwriad sydd ymhlyg yn y testunau, y pellter rhwng y digwyddiadau a

---

[25] Otter, *Inventiones*, tt. 11–14.
[26] Ibid., t. 19.
[27] *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1930), t. 65.
[28] Ibid., t. 2.

gofnodir a’r cyfnod cofnodi, a phresenoldeb un olygfa annisgwyl, cyn mynd ymlaen i dalu sylw manwl i gymariaethau a throsiadau.

Yn y dechrau’n deg, sef gyda theitlau’r testunau, y mae’r lle synhwyrol i gychwyn cofnodi’r symud hwn ar hyd y sbectrwm. (Yma rwy’n cydsynio â Paul Russell mai ‘Vita Griffini filii Conani’ yw teitl tebygol y gwreiddiol, oherwydd er bod rhannau uchaf tudalen gyntaf Peniarth 434 wedi eu difrodi mae’r copïau eraill oll yn cynnig hwn fel y teitl.[29]) Sylwn yn syth ar y gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ‘Vita’ yn y Lladin a ‘Historia’ yn y Gymraeg. Fel teitl, perthyn ‘Vita’ (‘bywyd’, ‘buchedd’) i draddodiad y bywgraffiadau seciwlar, e.e. hanes Siarlymaen gan Einhard a nodwyd eisoes, yn ogystal ag i fucheddau saint, e.e. *Vita Cadoci* (‘Buchedd Cadog’). Mae cysylltiadau digamsyniol â thraddodiad naratif hanesyddol i’r teitl hwn sydd yn benodol iawn ei arddull. O droi at ystyr ‘Historia’ o ran traddodiad llenyddiaeth ganoloesol Gymraeg yn ogystal ag o ran newidiadau’r ddeuddegfed ganrif, mae’n deitl mwy cymhleth ac amlhaenog na ‘Vita’. Gwelwn yn y man sut y mae’r cymhlethdod hwn yn effeithio ar gyfeiriadoldeb y fersiwn Gymraeg.

Perthnasol yn y fan hon yw cofio eglurhad Joachim Knape nad oedd ‘historia’ yn golygu ‘ymchwiliad hanesyddol’ yn yr Oesoedd Canol ond yn hytrach unrhyw fath o draethiad a oedd yn seiliedig ar hanesion y byddid yn ehangu arnynt.[30] Felly, nid oes honiad cynhenid o wirionedd yn y defnydd o’r gair ‘historia’; cyn belled â bod y ffynonellau yn cael eu datgan fel rhai ffeithiol, er bod hynny’n aml ar sail meini prawf digon mympwyol, nid oes patrwm mor bendant i arddull y traethu fel sydd yn achos ‘Vita’. Noder bod Knape yn trafod yr ‘historia’ Lladin yng nghyd-destun llenyddiaeth Ewrop yn gyffredinol, ond gwelir mai tebyg yw ei ystyr mewn Cymraeg Canol lle cyfeiria at ddeunydd ysgrifenedig o unrhyw fath. Dyma yw casgliad Brynley Roberts wrth iddo ddiffinio ‘historia’ fel testun sy’n cynnwys

---

[29] *Vita*, t. 125.

[30] Joachim Knape, ‘*Historia*, Textuality and *Episteme* in the Middle Ages’, yn *Historia: the concept and genres in the Middle Ages*, gol. Tuomas M. S. Lehtonen a Päivi Mehtonen (Helsinki: Societas Scientiarum Fennica, 2000), tt. 11–27 (t. 11).

‘[c]ronicliad o ddigwyddiadau sydd ynghlwm wrth genedl, person, neu wrthrych’, e.e. ‘hen ystoryaeu y Brytanyeit’.[31] Fel hyn hefyd y defnyddid y term gan y beirdd, fel y gwelir yng ngwaith Guto’r Glyn ychydig ganrifoedd yn ddiweddarach wrth son am ‘hanes’ teulu Dafydd Mathau o Landaf: ‘Dwyran, medd yr ystoria, | A roes Duw yt o ras da’.[32]

Fodd bynnag, gyda ‘deunydd ysgrifenedig’ fel yr unig faen prawf, noda Brynley Roberts ymhellach y gall ‘historia’ symud yn hawdd iawn rhwng honni ei bod yn hanesyn neu ddogfen (ffeithiol) a honni dim byd mwy na’i bod yn destun ysgrifenedig. Er enghraifft, pan yw’r chwedl ffuglennol *Breuddwyd Rhonabwy* yn ei disgrifio ei hun fel ‘ystorya’, cyfeiria ati ei hun fel testun a ysgrifennwyd er mwyn ei ddarllen yn hytrach nag fel stori i’w chofio ac i’w hadrodd ar lafar, hynny yw, esiampl o hunangyfeirio.[33] Enghreifftiau pellach o destunau sy’n hunanymwybodol ysgrifenedig yw cyfieithiadau llenyddol megis chwedlau Cymraeg am y Saint Greal (‘Er ystoria honn’), chwedl Geraint fab Erbin (‘llyma mal y treythir o ystorya gereint uab erbin’), a chwedl Peredur (‘Ystoria Beredur’).[34] Yn achos *Historia Gruffudd vab Kenan*, felly, mae ‘historia’ yn derm sy’n cyfuno, ar y naill law, syniad o gofnod hanesyddol, ac ar y llall, syniad o destun ysgrifenedig sy’n adrodd straeon am ‘arwyr a gwrthrychau dychmygol’.[35]

At hynny, mae defnyddio ‘historia’ fel teitl yn bwrw’r testun i bair un o bynciau llosg cylchoedd deallusol y ddeuddegfed ganrif, sef pwnc tair gradd gwirionedd: *historia-argumentum-fabula*. Gwelid y triawd hwn yn dylanwadu ar bwnc ‘Barddoneg’ wrth iddi ddechrau hawlio statws fel pwnc academaidd annibynnol.[36] *De inventione* gan Cicero a’r

---

[31] Brynley F. Roberts, ‘*Ystoria*’, *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 26 (1974–5), 13–20 (tt. 13, 17).
[32] Guto’r Glyn, ‘Moliant i Ddafydd Mathau o Landaf’, *Guto’r Glyn.net*, gol. a chyf. Ann Parry Owen, ll. 19–20 <http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem-selection=017> [cyrchwyd 4 Chwefror 2022].
[33] Roberts, ‘*Ystoria*’, t. 16; *Breudwyt Ronabwy: allan o’r Llyfr Coch o Hergest*, gol. Melville Richards (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2012), t. 21
[34] Roberts, ‘*Ystoria*’, t. 17.
[35] Ibid., t. 17.
[36] Päivi Mehtonen, *Old Concepts and New Poetics: Historia, Argumentum and Fabula in the Twelfth- and Early Thirteenth-Century Latin Poetics of Fiction* (traethawd doethuriaeth heb ei gyhoeddi, University of Tampere, 1996).

*Rhetorica ad Herennium* oedd y ddau destun a ddaeth â'r triawd i boblogrwydd yn ystod yr Oesoedd Canol. Pan luniwyd y gweithiau hyn yn wreiddiol yn yr wythdegau C.C., roeddent yn honni bod *historia* yn ymwneud â digwyddiadau a wiriasid gan lygad-dystion, fod *argumentum* yn 'ffuglen realistig', a bod *fabula* yn ddeunydd nad oedd nac yn wir nac ychwaith yn gredadwy.[37] Fodd bynnag, wrth i Farddoneg dorri ei chŵys ei hun o fewn system y disgyblaethau academaidd, daeth deunydd ffuglennol yn rhan fwyfwy amlwg o fewn pob elfen o'r sgema driphlyg hon, gan gynnwys o fewn 'historia'.[38] Roedd Dominicus Gundissalinus (*c.*1115–wedi 1190) yn un o nifer o sylwebyddion yn y ddeuddegfed ganrif a nododd fod y gwirioneddol yn ogystal â'r ffuglennol yn perthyn i *materia* Barddoneg.[39] Mae'r newid semantig hwn o ran diffiniadau'r triawd yn cefnogi'r honiad y gallasai 'historia' yn y Gymraeg olygu 'stori' lawn mor hawdd â 'hanes' (ffeithiol).[40] I awdur *Historia Gruffudd vab Kenan*, un rheswm posib dros y dewis o deitl felly oedd ei fod yn cynnig y cyfle i fod yn fwy annelwig am sut y dylai rhannau o'r testun gael eu darllen a'u dehongli, sydd yn ei dro yn effeithio ar ble y dylid eu gosod ar y raddfa ffuglennol-gyfeiriadol.

Daw'r drafodaeth hon â ni at yr ail agwedd ar y modd y mae fersiynau *Hanes Gruffudd ap Cynan* yn symud ar hyd y sbectrwm ffuglennol-gyfeiriadol, sef eu bwriad. Er nad oes datganiad pendant o fwriad yn y naill destun na'r llall, gwelsom fod dewis 'Historia' fel teitl yn medru awgrymu mai tuag at begwn ffuglennol y raddfa y dylid gosod y testun Cymraeg, er nad yw'r teitl mor 'ffuglennol' â theitlau eraill megis 'chwedl' neu 'cainc'. Ceir cliw arall sy'n atgyfnerthu'r canfyddiad hwn yn y modd y ceidw'r cyfieithydd lai o ddatganiadau pendant o wirionedd a llai o gyfeiriadau allanol nag y sydd yn y gwreiddiol.

---

37 Gw. y newid yn ystyron y triawd hwn dros amser yn yr atodiad i Mehtonen, *Old Concepts and New Poetics*, tt. 149–155; Gw. hefyd Isidorus Hispalensis (Isidore of Seville), *The Etymologies of Isidore of Seville*, gol. Stephen A. Barney (Cambridge: Cambridge University Press, 2006), i, 66–7.
38 Mehtonen, *Old Concepts and New Poetics*, t. 28.
39 Ibid., t. 47.
40 Rhoddir yr amod 'ffeithiol' i 'hanes' yma oherwydd amwysedd yr ail derm yn y Gymraeg. Wrth ystyried geiriau mewn ieithoedd Ewropeaidd eraill megis Alm. *Geschichte* neu Ffr. *histoire*, holwn ai'r Saesneg sy'n eithriadol yn hyn o beth wrth roi gwahanol ystyron i 'history' a 'story'.

Enghraifft gynnar o hyn yw sut y mae'r *Historia* yn ymwrthod â chyfieithu'r Lladin air am air pan gyfeirir at adran gyntaf y bywgraffiad (sef llinach Gruffudd) fel y 'sylfeini', hynny yw, y 'ffeithiau sylfaenol': 'hiis tamen feliciter iactis *fundamentis*' ('nawr y mae'r *sylfeini* hyn wedi eu gosod allan yn llawen').[41] Mae'r cyfieithiad Cymraeg Canol yn hepgor disgrifio'r adran hon, ac yn wir unrhyw adran arall, fel un sy'n cynnwys 'ffeithiau sylfaenol'.[42] Er nad cyfieithu gair-am-air sy'n ddisgwyliedig, ac er bod gwaith Elena Parina, er enghraifft, wedi dangos fod trosi testun i'r Gymraeg yn yr Oesoedd Canol yn dueddol o greu testun mwy cyffredinol ei ieithwedd gan felly ollwng ambell air o dro i dro, gellir darllen hepgor y *fundamentis* yng ngŵydd ymchwil Otter.[43] Dywed hithau: 'for fiction to be recognized as such, there must be a "contract" that suspends or "brackets" truth-claims and therefore protects the speaker from the charge of lying, although in a strictly referential reading his or her assertions may not correspond with reality'.[44] Mae'n bosib fod yr hepgor hwn a'r teitl 'Historia', felly, yn creu'r fath 'gytundeb' gan roi arwydd cynnil i'r darllenydd mai natur ffuglennol fydd i rai adrannau o'r gwaith.

Perthyn y 'cytundeb' hwn i agwedd arall ar y lleihad yng nghyfeiriadaeth allanol yr *Historia* sydd yn ei symud tua'r pegwn ffuglennol, sef penderfyniad y cyfieithydd i beidio â chynnwys ambell sylw am dystiolaeth llygad-dystion, gan felly chwarae ychydig â'r diffiniad traddodiadol o 'historia' a welsom yn gynharach. Ceir un enghraifft yn y disgrifiadau byrion o Gruffudd a'i wraig Angharad. Y tro cyntaf, cawn bortread o Gruffudd ar sail adroddiadau ei gyfoeswyr. Cyfeirir yn benodol at yr adroddiadau hyn a'u ffynhonnell yn y cyfieithiad fel yn

[41] *Vita*, §8.3; Gw. s.v. *fundamentum*$^{2c}$, *Dictionary of Medieval Latin from British Sources* lle ystyr y gair yw 'sail' ('basis') mewn cyd-destun dadl, e.e. 'aliquid in processu propositum est falsum et calumpniabile, et maxime quod pro fundamento erat positum' ('mae rhywbeth a gynigwyd yn ystod y broses yn ffals ac amheus, yn enwedig rhywbeth a osodwyd fel sylfaen').
[42] *Historia*, t. 6.
[43] Gw. e.e. Elena Parina, 'Medical Texts in Welsh Translation: *Y Pedwar Gwlybwr* and *Rhinweddau Bwydydd*' yn *Crossing Borders in the Insular Middle Ages*, gol. Victoria Flood ac Aisling Byrne (Turnhout: Brepols, 2019), tt. 47–63; Elena Parina, 'The good, the bad and the translator: the concept of predestination in a Middle Welsh translation of *Elucidarium*', *Индоевропейское языкознание и классическая филология*, XXII (2018), 1003–1012.
[44] Otter, *Inventiones*, t. 7.

y gwreiddiol. Mae llygad-dystion y Gymraeg – 'kedemdeitheon gvahanredaul Gruffud a dywedynt' – yn cyfateb i rai'r Lladin, os nad yn eu cryfhau – 'coaetanei Griffini retulerunt' ('adroddodd cyfoeswyr Gruffudd') – gan fod 'cydymdaith' efallai yn awgrymu gwybodaeth bersonol, ac arbennig o awdurdodol, am Gruffudd.[45] Fodd bynnag, pan gaiff ei wraig ei disgrifio, rhoddir rhagor o sylw i'r 'adrodd' yn y fersiwn Ladin nag yn y Gymraeg: 'quam huius principatus prudentiores referre soliti sunt [...]' ('adroddai gwybodusion ei deyrnas ei bod hi'n […]') sydd yn cyfateb yn y Gymraeg ag 'er honn a dywedynt doethyon y kyuoeth', ond nid oes gan y 'tradiderunt' ('dywedasant'), sydd yn rhagflaenu'r disgrifiad o'i chymeriad 'hoffus' a'i lleferydd 'huawdl', ddim gair cyfatebol yn y Gymraeg.[46] Caiff yr agweddau hynny eu rhestru'n ddirodres fel cyfres o nodweddion dymunol heb yr elfen o 'adrodd', sef yr elfen sy'n tynnu sylw at ffynhonnell y tu allan i'r testun ei hun: 'ac ewined teneu; hynavs, a huaudel'.[47] Gyda'r dirywiad cynnil hwn yn y nifer o gyfeiriadau allanol at lygad-dystion, mae cyfeiriadoldeb yr *Historia* yn gwanhau, ac felly mae'r testun yn symud mymryn tua'r pegwn ffuglennol.

Cyn ystyried elfennau pellach o'r *Historia* sydd yn ei gwthio'r tua'r pegwn ffuglennol, rhaid cydnabod eto ei bod wedi ei angori ar ochr y pegwn cyfeiriadol. Er y gellid ystyried absenoldeb honiad o eirwiredd wrth sôn am 'ffeithiau', y defnydd o 'Historia' yn lle 'Vita', a'r nifer llai o gyfeiriadau allanol at lygad-dystion yn 'gytundeb' ymhlyg sydd yn awgrymu 'ffuglenoldeb' yr *Historia*, nid yw, yn uniongyrchol, yn selio 'ffuglenoldeb' a diffyg geirwiredd ynddi chwaith. Testunau ymddangosiadol hanesyddol yw'r *Vita* a'r *Historia* gyda'r bwriad o ddogfennu hanes ar sail y byd allanol. Fel y soniwyd eisoes, un o nodweddion ysgrifennu hanesyddol yw presenoldeb cyfeiriad cynradd, allanol, a cheir y fath gyfeiriad drwy gydol y ddwy destun gan mai ysgrifau hanesyddol ydynt wedi'r cyfan. Yn

[45] *Vita*, §20.1; *Historia*, t. 17.
[46] *Vita*, §24.1; *Historia*, t. 21.
[47] *Vita*, §24.2; *Historia*, t. 22.

wir, hyd yn oed yng ngwaith Sieffre o Fynwy neu Gwallter Map, lle gwelir digonedd o bytiau ffuglennol, nid yw'r cyfeiriad allanol fyth yn diflannu yn llwyr; petai yn gwneud hynny, ni fyddai'r testunau hynny yn cael eu hystyried yn rhai hanesyddol.[48] Hyd yn oed yn yr enghreifftiau mwyaf trawiadol o destunau'n camu oddi ar y trywydd hanesyddol-ffeithiol a thuag at begwn ffuglennol y sbectrwm, dros dro yn unig y mae'r dargyfeirio hwnnw.

Fodd bynnag, mae'r newid teitl a'r ddau achos o hepgor yn yr adran gychwynnol yn dangos bod yr *Historia* Gymraeg yn dechrau ei thaith mewn safle gwahanol ar y sbectrwm o'i chymharu â'r testun Lladin. Mae'r agweddau hyn yn cymhlethu cyfeiriadoldeb yr *Historia* ac yn ei symud tua'r pegwn ffuglennol, ac, fel y gwelwn yn fuan, mae hyn yn ei dro fel pe bai'n rhoi trwydded i'r cyfieithydd ymryddhau o gonfensiynau arddull y *Vita* wreiddiol gan wneud lle i arddull ieithyddol mwy blodeuog.

Y modd y mae'r *Historia* yn cymylu ei chyfeiriadoldeb drwy nodi'r pellter rhwng pwnc y bywgraffiad a chyfnod y cyfansoddi yw'r drydedd elfen i'w hystyried wrth drafod symudiad yr *Historia* a'r *Vita* ar hyd y sbectrwm ffuglennol-gyfeiriadol. Daw hyn yn agoriad unigryw yr *Historia* sydd yn cynnwys datganiad hunanymwybodol – nad yw yn y Lladin gwreiddiol – sydd yn cyhoeddi bod y testun dilynol yn hen hanes: 'Eman e dechreu historia hen Gruffudd vab Kenan vab Yago'.[49] Ailbwysleisir yn syth hynafiaeth y ffynhonnell wrth ehangu ar ddatganiad y *Vita*, sef y bydd yn adrodd hanes Gruffudd 'antiquorum more' ('yn null yr Hynafiaid'), cyn mynd ati i ddechrau adrodd campau Gruffudd.[50] Nid yw'r Gymraeg yn cyfieithu'r cymal hwn yn ffyddlon. Yn hytrach, fe'i gwelwn yn addo sôn am y campau

[48] Otter, *Inventiones*, t. 14. Eto, gw. Love a Marzella, 'Latin Arthurian literature and the rise of fiction'.
[49] *Historia*, t. 1. Noder bod 'hen' yn ansoddair sy'n dueddol o ddod cyn yr enw, yn wahanol i'r dyfyniad presennol. Mae'n bosib felly ei fod yn disgrifio 'Gruffudd vab Kenan vab Yago' er mwyn ei wahaniaethu ef a Gruffudd ap Cynan ab Owain Gwynedd (m. 1200). Lluniwyd y fersiwn Ladin cyn i'r ail Gruffudd ddod i amlygrwydd, ond bu farw yn bur agos i ddyddiad y fersiwn Cymraeg. Fodd bynnag, nid felly y darllenodd D. Simon Evans y dyfyniad wrth gyfieithu i'r Saesneg: 'Here beginneth the old history of Gruffudd son of Cynan, son of Iago', *A Medieval Prince of Wales: The Life of Gruffudd ap Cynan*, gol. a chyf. D. Simon Evans (Felinfach: Llanerch, 1990), t. 53. Nid yw chwaith yn hollol annisgwyl i 'hen' ddilyn enw: 'In the comparatively rare cases where *hên* [*sic.*] follows its noun, some antithetic emphasis is generally implied', John Morris Jones, *A Welsh Grammar, Historical and Comparative: Phonology and Accidence* (Oxford: Clarendon Press, 1913), t. 262.
[50] *Vita*, §8.3.

‘herwyd yd edewit gennym trwy hen gyvarwydyt’; term arwyddocaol yn ei hun am ei fod yn perthyn i’r traddodiad llafar ac i chwedlau sydd ymhell o’r pegwn cyfeiriadol.[51]

Mae’r sylwadau hyn yn symud yr *Historia* tua’r pegwn ffuglennol mewn dwy ffordd. Yr awgrym o hunangyfeiriadoldeb yw’r gyntaf: er nad yw’n nodi bod y stori yn ffrwyth y dychymyg yn gyfan gwbl, mae’r ffaith bod yr awdur yn tynnu sylw ati fel stori ysgrifenedig yn arwyddocaol. A dyma’r ail ffordd: er bod tynnu ar hynafiaeth stori er mwyn ennyn parch at eirwiredd y ffynhonnell yn dechneg gyfarwydd i’r cyfnod, gallai gael effaith i’r gwrthwyneb oherwydd po bellaf yn y gorffennol y bo’r pwnc, y mwyaf y pylo’r cyfeiriadoldeb. Tybir i’r *Vita* Ladin gael ei hysgrifennu bron yn syth wedi marwolaeth Gruffudd, tra bo’r *Historia* Gymraeg yn gynnyrch cyfnod dros hanner canrif wedi hynny. Mae’r math hwn ar ddadleoli amser, yn ôl Suzanne Fleischman, yn ffactor a all alluogi awdur i chwarae â hanesyddoldeb ffigurau’r gorffennol, hynny yw, dilysrwydd hanesyddol eu portread.[52] Yn hyn o beth, fel y *chanson de geste* Ffrengig, mae’r *Vita* Ladin yn ymdrin â digwyddiadau a chymeriadau sydd yn adnabyddus i’r cof-ar-y-cyd, tra oedd gan awdur yr *Historia* le i symud a newid ambell i olygfa a phriod-ddull oherwydd ysgrifennai o leiaf genhedlaeth yn ddiweddarach. Gellir dadlau ein bod yma, ar raddfa lai o lawer, yn delio â’r un ffactor a welwn ar waith yn natblygiad hanes y Brenin Arthur a’i farchogion rhwng y bumed a’r ddeuddegfed ganrif, er nad oes gan Arthur hanes yn y bumed ganrif sydd wedi dod lawr inni: ‘through a long process of temporal and geographic displacement, [it] had become sufficiently detached from its historical moorings and overlaid with fantasy that it was received by a twelfth-century French public as fiction’.[53]

Ar y cyfan, felly, mae’r drafodaeth uchod yn dangos tuedd y fersiwn Gymraeg i gyfyngu ei chyfeiriadaeth a symud yn gynnil i ffwrdd o begwn ffeithioldeb y sbectrwm. Fodd

---

[51] *Historia*, t. 6; Gw. Sioned Davies, *Crefft y Cyfarwydd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995).
[52] Suzanne Fleischman, ‘On the Representation of History and Fiction in the Middle Ages’, *History and Theory*, 22 (1983), 278–310 (t. 278).
[53] Ibid., t. 278.

bynnag, daw'n amlwg nad yw'r testun Cymraeg na'r Lladin yn gwbl sefydlog eu lleoliad ar y sbectrwm a hynny wrth graffu ar y bedwaredd ystyriaeth, sef un bennod ryfedd sydd yn gyffredin i'r adran linach yn y naill destun a'r llall. Wrth inni ddysgu fod Gruffudd yn ddisgynnydd i'r brenin Sgandinafaidd Harald Haarfager, clywn sut y glynodd torch ei ewythr yntau, Alan, wrth ddwylo Twr, ei lofrudd, wrth i Twr geisio ei dwyn oddi ar gorff Alan. Yn sydyn, dechreuodd corff Twr ymwingo ac ystumio'n erchyll wrth iddo farw.[54] Er ei bod hi'n sicr nad yw'r stori yn cael ei chyflwyno fel ffuglen uniongyrchol, synhwyrwn nad yw'r olygfa ryfeddol hon yn perthyn yn esmwyth mewn bywgraffiad sy'n honni ei fod yn hanesyddol, yn enwedig yn y Lladin gwreiddiol, sef, yn ôl rhai, iaith testunau sy'n ffeithiol, yn hanesyddol ac sy'n hawlio pwynt sefydlog ar y sbectrwm.[55]

Cyfiawnheir cynnwys y fath olygfa ffantastig mewn testun hanesyddol drwy'r esboniad mai gwaith Duw ydoedd, hynny yw, mae hi'n stori wyrthiol nid ffuglennol. Dylid nodi nad yw'r math hwn o gynnwys yn unigryw i *Fywyd Gruffudd ap Cynan*. Gwelir digwyddiad tebyg yn cael ei gofnodi yn *Itinerarium Kambriae* Gerallt Gymro, sydd, fel mae'n digwydd, yn destun y mae Otter yn ei osod fel esiampl ar ei sbectrwm hithau oherwydd gallu'r testun i amrywio ei gyfeiriadoldeb. Yn stori Gerallt, mae bachgen yn glynu wrth garreg ger eglwys Dewi Sant yn Llan-faes wrth iddo ddwyn colomennod, ac fel gyda'r digwyddiad rhwng Alan, Twr a'r dorch, priodolir yr episod i ymyrraeth sanctaidd os nad dwyfol: mae stori'r dorch yn arwydd gan Dduw i ddynodi Alan fel ffigur sanctaidd a stori'r bachgen o bosib yn 'gosb wyrthiol gan y sant hwnnw a oedd yn gwarchod diogelwch adar ei eglwys'.[56]

Tu hwnt i wyrthiau, gellir hefyd ddarllen yr olygfa yng ngoleuni theori 'emplotment' Hayden White gan dybio bod 'ffeithiau hanesyddol' yn cael eu codio fel cydrannau o

---

[54] *Vita*, §5.2.
[55] Gw. n. 5.
[56] '... miraculosa ... sancti illius uindicta, auium ecclesiae suae indemnitatem procurantis', Giraldus Cambrensis (Gerallt Gymro), *Itinerarium Kambriae*, (Turnhout: Brepols, 2011), t. 23; *Vita*, §5.3.

strwythur storïol adnabyddus sy'n gwneud digwyddiadau yn ddealladwy fel amrywiaeth ar y strwythur hwnnw, er enghraifft, ailadrodd rhyw ryngdestun chwedlonol neu Feiblaidd.[57] Fel y soniwyd eisoes, mae strwythur *Hanes Gruffudd ap Cynan* yn dilyn gwaith yr hanesydd clasurol Suetonius. Ffigur Beiblaidd sydd hefyd yn fodel i hanes Gruffudd yn yr *Hanes* yw un o arwyr rhyddid yr Hen Destament, Jiwdas Maccabeus.[58] Buasai White felly'n dadlau bod y cyfeiriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol at stori Jiwdas Maccabeus yn rhoi ystyr i stori Gruffudd. Yn yr un modd, mae'n bosib fod awdur yr *Hanes* wedi cynnwys stori Alan a Twr – stori sydd efallai yn deillio o chwedl Norseg drwy ffynhonnell Wyddelig – er mwyn dod ag ystyr pellach i farwolaeth Trahaearn.[59] Try'r dorch yn stori Alan a Twr yn drawsenw am y deyrnas yn stori Gruffudd a Trahaearn. Yn y ddwy, gwelir bod dwyn yr hyn nad yw'n eiddo ichi yn siŵr o arwain at angau. Beth bynnag fo'r rheswm dros ei chynnwys, mae'r ffaith i'r olygfa honno ymddangos yn y *Vita* yn nodi pam na all y fersiwn Ladin hawlio pwynt sefydlog ar y sbectrwm ffuglennol-gyfeiriadol.

Heblaw am yr olygfa hon lle mae'r *Historia* Cymraeg a'r *Vita* Lladin ill dwy'n llithro gyda'i gilydd megis tua'r pegwn ffuglennol ar raddfa Otter, ar y cyfan, wrth ystyried yr *Hanes* yn nhermau'r teitl, y bwriad, a'r pellter rhwng cyfnodau'r pwnc a'r dyddiad cyfansoddi, rydym wedi gweld mai'r *Historia* Gymraeg sydd fel arfer yn ymgripian tua'r pegwn hwnnw. Treuliaf weddill yr erthygl yn canolbwyntio ar ein hystyriaeth olaf o'r gwahaniaethau rhwng y ddwy fersiwn gan edrych yn fanylach ar iaith ac arddull yr adrannau disgrifiadol.

Y gwahaniaeth arddull amlycaf rhwng y ddau destun yw bod canran uwch o drosiadau yn yr *Historia*. Mae hyn yn cynnwys tuedd i drawsnewid cymariaethau a

---

[57] Hayden White, *Metahistory: The Historical Imagination in Nineteenth-century Europe* (Baltimore: Johns Hopkins University Press, 1973) (yn enwedig tt. 7–11).
[58] *Vita*, §12.8, §31.7. Trafodir y cysylltiad ar t. 48 ac yn y nodiadau.
[59] Yn 'Norse history in *Hanes Gruffudd ap Cynan*', *Revue Celtique*, 42 (1925), 336–44, (tt. 341–4), mae A. G. van Hamel yn cynnig bod yr olygfa yn cynnwys atgof pell o'r Brenin Olaf o Norwy (*c*. 1016–1030).

chyffelybiaethau yn y gwreiddiol i drosiadau yn y cyfieithiad; noder nad yw'r patrwm hwn yn un o nodweddion arferol cyfieithiadau Cymraeg Canol o Ladin.[60] Mae hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun ein trafodaeth ni ar gyfeiriad allanol oherwydd, yn y bôn, mae gan gymhariaeth gyfeiriad cynradd, allanol nad oes gan drosiad. Wrth ddefnyddio cymhariaeth, cedwir o raid y ffocws ar y goddrych gwirioneddol (y cyfeiriad cynradd) drwy ei gymharu ag elfen newydd (y cyfeiriad eilaidd). Ei hanfod yw bod y 'fel' yn glynu ein sylw ar y goddrych y mae'r gwrthrych newydd yn cael ei gymharu ag ef. Mewn trosiad, fodd bynnag, mae'r goddrych yn diflannu; caiff ei eilyddio'n llwyr am y gwrthrych y cymherir ag ef. Yno, aiff y cyfeiriad cynradd o'r golwg dros dro – 'suspended primary reference' – yn union yr un modd ag y gwelsom ddatganiadau geirwiredd yn mynd o'r golwg dros dro yn yr *Historia*.[61] O gymharu ac mewn cymhariaeth, mewn trosiad, mae'r gwrthrych (y cyfeiriad eilaidd) ddwywaith mor bell o'r goddrych (y cyfeiriad cynradd).

O ran ein sbectrwm, mae trawsnewid cymhariaeth yn drosiad yn gwthio'r testun tua'r pegwn ffuglennol, oherwydd, mewn trosiad, mae'r cyfeiriad cynradd, sef y goddrych gwirioneddol, o reidrwydd yn absennol. Yn hyn o beth, mae Otter yn dilyn Paul Ricœur drwy nodi'r berthynas glòs rhwng trosiad a ffuglen: 'fiction is a special case of metaphor'.[62] Mae'r drafodaeth hyd yn hyn yn awgrymu na ddylai'r weithred o newid cymhariaeth i drosiad gael ei hystyried yn gynnyrch chwaeth y cyfieithydd. Tybed, felly, a oes modd priodoli'r newid hwn i newid deallusol a oedd ar droed yn ystod y ddeuddegfed ganrif, sef symud ffiniau ffuglenoldeb wrth iddo ddod yn fwy derbyniol mewn ysgrifau hanesyddol, yn enwedig mewn ieithoedd brodorol? Gellid dadlau bod twf y ffuglennol mewn testunau hanes wedi caniatáu

---

[60] Defnyddiaf 'cyffelybiaeth' yn gyfystyr â 'chymhariaeth'. Am restr o nodweddion sydd i'w canfod mewn cyfieithiadau Cymraeg Canol – a beirniadaeth o'r arfer o drin cyfieithiad Cymraeg Canol yn wahanol i destun 'gwreiddiol' – gw. Diana Luft, 'Tracking *ôl cyfieithu*: Medieval Welsh translation in criticism and scholarship', *Translation Studies*, 9:2 (2016), 168–182.
[61] Otter, *Inventiones*, t. 12.
[62] Ibid., t. 12; Ricœur, *The Rule of Metaphor*, tt. 224, 247.

i'r cyfieithydd deimlo rhwydd hynt i wyro oddi wrth elfennau o'r gwreiddiol gan gyfnewid cyffelybiaeth â throsiad a thrwy hynny ddwysáu'r elfen ffuglennol.

Dylid nodi nad yw pob cymhariaeth Ladin yn dod yn drosiad yn y fersiwn Gymraeg, fel y gwelwn yn y man, ond dechreuwn ran nesaf ein trafodaeth gan graffu ar bum enghraifft lle digwydd hynny, a'r rhan fwyaf ohonynt yn dod o adran ddramatig brwydr Mynydd Carn. (Cymaint yw bywiogrwydd a gwreiddioldeb yr adran hon – a chan nad yw'n dilyn unrhyw gynsail neu gonfensiwn parod – nes i rai gredu ei bod naill ai'n ddisgrifiad llygad-dyst neu'n greadigaeth dychymyg yr awdur.[63])

Y gyntaf o'r pum enghraifft yw'r disgrifiad lle dywedir bod maes y gad yn crynu gan anferthedd y sain. Yn y Lladin, gwneir hynny drwy gymhariaeth: 'resonare *visa est* terra fremitu equorum ac peditum' ('roedd y tir *yn ymddangos fel pe bai'n* diasbedain gan daranau'r ceffylau a'r troedfilwyr').[64] Mae'r fersiwn Gymraeg yn hepgor yr elfen gymharol gan honni bod y tir yn llythrennol yn atseinio: 'seinnyav a oruc y daear gan duryf y meirch a'r pedyt'.[65] Gwelir yr un math o broses yn y disgrifiad o waed a chwys y frwydr: yn y *Vita* Ladin dywedir 'ut sudoris et sanguinis flumina decurrisse *putarentur'* ('*meddylid* y bu afonydd o chwys a gwaed yn llifo'), ond dilëir yr elfen o ddirnad neu ddehongli yn y fersiwn Gymraeg (y 'meddylid') wrth i'r awdur ddatgan 'chwys y llavur a'r gvaet en gvneithur frydeu redegauc'.[66]

Yr enghraifft fwyaf eithriadol o'r newid arddull cynnil ond arwyddocaol hwn yw'r un a geir yng nghrombil adroddiad y frwydr, sef disgrifiad echrydus marwolaeth gelyn pennaf Gruffudd, Trahaearn ap Caradog, tywysog Powys a oedd ar y pwynt hwn yn yr hanes yn dywysog Gwynedd hefyd. Ar ôl disgrifio sut y rhwygwyd ei berfedd pan drywanwyd ef, â'r naratif Lladin yn ei flaen i gyfleu sut yr oedd ei gorff yn gwingo a sut yr oedd ei geg fel pe

[63] *Historia*, t. ccxxiv.
[64] *Vita*, §18.10.
[65] *Historia*, t. 15.
[66] *Vita*, §18.11; *Historia*, t. 15.

bai'n cnoi'r glaswellt: 'et in terram pronus deiectus, *quasi* herbas viventibus carpere dentibus ex armis *visus est*' ('roedd yn gorwedd wyneb-i-lawr ar y llawr wedi ei ddiarfogi ac *roedd yn ymddangos fel petai* ei fod yn pori ar y glaswellt gyda'i ddannedd bywion').[67] Unwaith eto, mae'r gymhariaeth a ddynodir gan 'quasi' a'r cysylltiadau breuddwydiol sydd gan 'visus est' yn absennol yn y fersiwn Gymraeg o'r un adran. Mae'r ddelwedd yn fwy uniongyrchol wrth i'r teyrn o Bowys 'bori' wrth farw dan wingo.[68] At hynny, noder y defnyddir y ferf 'pori' gan felly leihau statws yr ymhonnwr hwn i lefel anifeilaidd. Yr hyn sydd yn annisgwyl braidd yw nad yw'r *Historia* wedi cyfieithu'r priod-ddull Lladin trawiadol 'viventibus [...] dentibus' ('dannedd bywion'). Fodd bynnag, mae'n bosib mai camgymeriad yn y Lladin ydyw: oherwydd y gystrawen a'r cyfateb gramadegol annisgwyl, awgryma Paul Russell nad oedd y fath ddisgrifiad yn y Lladin gwreiddiol colledig o gwbl ac mae gwall homeoteleuton yn Peniarth 434 ydyw wedi i lygad y copïwr neidio o sillafau olaf 'vivente' i 'dentibus' gan felly ychwanegu'r terfyniad cyflyrol anghywir i 'viventibus'.[69] Os nad oedd y ddelwedd drawiadol yn y Lladin gwreiddiol, nid oes disgwyl iddi fod yn y cyfieithiad Cymraeg Canol.

Nesaf, yn y darn lle sonnir am y modd y triniwyd corff Trahaearn wedi iddo farw, gwelwn ddau wahaniaeth arwyddocaol yn y fersiwn Gymraeg: cyflwynir elfen o gyffelybiaeth ond dim ond wedi i'r gyffelybiaeth wreiddiol ddod yn drosiad. Fel y gwelwn, effaith hyn yw dyblu'r dwyshad ffuglennol. Cawn drosiad Cymraeg newydd sbon law-yn-llaw â chymhariaeth wreiddiol wrth i ni glywed fod Gwcharki, un o hurfilwyr Gwyddelig Gruffudd, wedi piclo corff Trahaearn fel petai'n facwn. Yn ôl y Lladin mae Gwcharki yn halltu corff Trahaearn, fel y gwneir â chig mochyn pan gaiff ei droi yn facwn, er mwyn ei gyffeithio: 'cuius cadaver *ut carnem suillam* in lardum Gucharki Hybernus sale conduerat' ('cadwodd Gwcharki Wyddel ei gorff mewn halen *fel cig mochyn* yn cael ei droi mewn i

[67] *Vita*, §18.12.
[68] *Historia*, t. 15.
[69] *Vita*, t. 148.

facwn').[70] Yr ail wahaniaeth yw bod yr *Historia* yn ymhelaethu ar y gymhariaeth o droi cig mochyn yn facwn gan gyflwyno trosiad canibalaidd lle gwelir corff Trahaearn nid yn cael ei halltu fel petai'n facwn, ond yn hytrach yn cael ei droi'n facwn: 'a Gucharki Wydel a wnaeth bacwn ohonav ual o hwch'.[71] Gwelir bod y gymhariaeth rhwng y bacwn (dynol) a'r hwch ac nid rhwng yr halltu a'r bacwn. Anodd pennu ai annifyr ac erchyll y byddai'r ddelwedd hon wedi bod fel y disgwylwn ninnau heddiw ynteu canmoladwy a buddiol fel yn aml y cyflwynir canibaliaeth mewn testunau cyfredol megis rhamantau'r croesgadau, e.e. *Richard Coer de Lion*.[72] Nid yw'r gwahaniaeth cynnil hwn rhwng y Lladin a'r Gymraeg yn ddim byd o'i gymharu â'r gwahaniaeth rhwng y dychymyg trawiadol sydd ar waith yn eu rhyddiaith hwy a'r hanes laconig a geir yng nghofnod y *Brut*: 'Ac yna y bu vrwydr yMynyd Carn. Ac yna y llas Trahaern ab Caradawc'.[73]

Cymaint yw tuedd cyfieithydd Cymraeg yr *Historia* i ddefnyddio trosiad yn lle cymhariaeth nes ei fod weithiau'n cyflwyno un lle nad oedd disgrifiad o unrhyw fath – na chymhariaeth na throsiad – yn y testun gwreiddiol. Dyma'r achos wrth fwrw sen ar Meirion Goch; dyn a fradychodd Gruffudd gan beri i hwnnw gael ei garcharu yng Nghaer am ddeuddeg mlynedd.[74] Yma, dilyna'r cyfieithydd ei fodel Lladin yn union ond iddo benderfynu ychwanegu un trosiad: 'Dum ad hunc modum Griffinus regni sui deliciis frueretur, Meiriawnus Rufus Baro illi fidelitate obstrictus, eum coram Hugone comite Cestriae maliciose non solum accusavit, sed prodidit sic'; 'Ac val yd oed y uelly en arver o uwynnyant y vrenhinyaeth, *y kyffroet Meiryaun Goch o saeth diauwl*, y varwn e hun, ac y kuhudus ef urth Hu yarll Caer, ac y bredychus en e mod hvnn'.[75]

[70] *Vita*, §18.13.
[71] *Historia*, t. 15.
[72] Testun o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ond yn seiliedig ar fersiwn Eingl-Normaneg coll o *c.* 1250. Gw. *Richard Coer de Lyon*, gol. Peter Larkin (Kalamazoo: Medieval Institute Publications, Western Michigan University, 2015), ll. 3077–3124, 3409–3528.
[73] *Brut y tywysogyon*, t. 30.
[74] Neu un mlynedd ar bymtheg; mae'r testun yn anghyson ar y manylyn hwn.
[75] *Vita* §19.1; *Historia*, tt. 16–17.

Ni ellir honni bod cymhariaeth yn ddyfais estron i deithi'r iaith darged nag ychwaith yn rhywbeth dieithr i'r cyfieithydd oherwydd mae cymalau sydd yn cynnwys y termau cymharu 'en gyffelip y', 'megys' a 'fal' oll i'w canfod yn y testun, fel yn yr esiamplau isod, ac, fel y nodwyd eisoes, nid yw pob cymhariaeth yn cael ei thrawsnewid. Y ddadl, felly, yw mai cynnyrch bwriadol y cyfieithydd yw'r newidiadau hyn ac nid rhywbeth mympwyol neu ddamweiniol.

Mae'r enghreifftiau lle y cedwir y gymhariaeth yn aml yng nghyd-destun disgrifio Gruffudd ar flaen y gad gan ei osod ochr yn ochr â Jiwdas Maccabeus. Ar ddwy achlysur, dywedir bod Gruffudd 'en gyffelip y gaur ac e lew' ('non secus ac gigas vel leo') ac fe'i cymherir hefyd â '[ch]avr y redec y ford' ('quasi giga ad currendam viam'), wedi iddo adennill Gwynedd am y tro cyntaf.[76] Disgrifir israddoldeb y Normaniaid drwy gyffelybiaethau hefyd pan syrthiant o'u ceffylau 'fal ffrwyth y ffigys y ar eu gwydd' ('ut ficus de arboribus') a phan gyrchant Gruffudd 'megys gellgvn neu callgun en hely ac en dilit carv blin' ('ut canes venatici cervum indagare et persequi student').[77] Yr unig enghraifft arall yw pan gymherir yr eglwysi a adeiladwyd yng Ngwynedd wedi marwolaeth Gruffudd â sêr y nefoedd: 'echtywynygu a wnei Wynedd yna o eglwysseu kalcheit, fal y ffurfafen o'r syr' ('Venedocia cum ecclesiis < > iam firmamento ac stellis cum dedicationibus').[78]

Wrth holi pam nad yw'r *Historia* Gymraeg yn trawsnewid y cymariaethau hyn, nodwn gydberthynas ddiddorol gan fod pob un ohonynt, heblaw am un, yn gyfeiriad neu ddyfyniad Beiblaidd. Unwaith eto, mae'r thema Facabeaidd ar waith: dyma sydd y tu ôl i'r cyfeiriadau at gewri a llewod, gan adleisio 1 Macc. 3:3–4, ac mae'n debyg mai at ailadeiladu temlau Caersalem, hefyd allan o Lyfr y Macabeaid, y cyfeiria'r fenter adeiladu eglwysi.[79] Gellir hefyd ddadlau mai cyfeiriad at Salm 18:5–7 (y Fwlgat) yw'r disgrifiad o Gruffudd fel

[76] *Vita*, §18.8 a *Historia* t. 15; *Vita* §14.14 a *Historia*, t. 11; *Vita*, §12.8 a *Historia*, t. 9.
[77] *Vita*, §28.6 a *Historia*, t. 26; *Vita*, §22.9 a *Historia*, t. 19.
[78] *Vita*, §33.5 a *Historia*, t. 30.
[79] 1 Macc. 1:41–51.

pencampwr rhedeg, ac mai delweddaeth o'r Hen Destament sydd y tu ôl i'r disgrifiad o Normaniaid yn syrthio fel ffigys.[80] Mae'r ffaith nad yw'r *Historia* Gymraeg yn troi pob un gymhariaeth yn drosiad yn cadarnhau'r angen i drafod y ddau destun ar yr un sbectrwm ac nid mewn dau gae ar wahân. Perthyn hefyd i'r ffaith mai dros dro yn unig y mae'r mudiant tua'r pegwn ffuglennol a geir mewn ysgrifau hanesyddol wrth iddynt hepgor y cyfeiriad allanol.

Mae hefyd yn dra phosibl fod y cyfateb uchod yn arwydd o'r syniad y buasai troi'r cymariaethau ysgrythurol hyn yn drosiadau wedi bod yn anaddas – hyd yn oed mewn iaith frodorol sy'n dangos ymdriniaeth go rydd â'r cynnwys ar adegau eraill – oherwydd nid felly y caiff ei fynegi yn yr Ysgrythur. Gall newid y geiriad gymylu'r cyfeiriad Beiblaidd neu fod yn gamluniad cwbl annerbyniol o Air Duw.

Gellir hefyd ddadlau fod agwedd ddeallusol bellach ar y ddeuddegfed ganrif wedi cael effaith ar benderfyniad y cyfieithydd i ddewis addasu dim ond rhai cymariaethau. Yr agwedd hon yw'r drafodaeth a gafwyd yn ystod y cyfnod ynghylch yr arddull gywir i'w defnyddio wrth drafod materion ysgrythurol neu ddwyfol. Yn y cyfnod clasurol, gan mai un o nodau'r athronwyr oedd bod mor ofalus â phosibl wrth drafod Duw, defnyddient gymariaethau yn unig wrth wneud hynny. Dyma a ddywed Macrobius (*fl. c.* 400AD) yn ei esboniad ar *Somnium Scipionis* ('Breuddwyd Scipio') gan Cicero, sef testun a ddaeth yn boblogaidd yn ystod y ddeuddegfed ganrif: 'ond maent [yr athronwyr] yn ceisio trafod hyn [materion yn ymwneud â Duw], sydd nid yn unig tu hwnt i ffiniau iaith ond hefyd ffiniau dirnad dynol, [ac felly] ffoant i gysgod cymhariaethau ac enghreifftiau'.[81] Tybed a oes modd cynnig bod diddordeb y ddeuddegfed ganrif yn nefnydd gofalus yr athronwyr clasurol wrth

[80] *Vita*, tt. 48, 141, 160; Salm 18:6 (y Fwlgat): 'in sole posuit tabernaculum suum et ipse tamquam sponsus procedens de thalamo suo exultavit ut gigans ad currendam viam suam'.

[81] 'sed siquid de his adsignare conantur quae non sermonem tantum modo sed cogitationem quoque humanam superant, ad similitudines et exempla confugiunt.' Macrobius, *Commentarii in Somnium Scipionis* (Turnhout: Brepols, 2010), i, pen. ii.

drafod materion dwyfol wedi chwarae rôl ym mhresenoldeb y cymariaethau yn yr *Historia* wrth drafod yr un pwnc? At hynny, os cofiwn fod *fabula* yn fath ar gymhariaeth estynedig, hwyrach ei bod yn berthnasol mai gwell oedd bod yn wyliadwrus ac osgoi cymariaethau yn gyfan gwbl yma, yn ôl pobl fel Macrobius, oherwydd yng nghyd-destun yr un drafodaeth, 'mae yn erbyn cyfraith Duw i unrhyw *fabula* ddod ar gyfyl y pwnc'.[82]

I grynhoi rôl iaith ac arddull yn lleoli'r testun Lladin a'r Gymraeg ar y sbectrwm ffuglennol-gyfeiriadol, gwelwn fod yr *Historia* Gymraeg yn cynnwys mwy o drosiadau na'r *Vita* Ladin wreiddiol, a'i bod yn tueddu i drosi ei chymhariaethau yn drosiadau, ac eithro ar achlysuron pan drafodir materion dwyfol. Mae hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun y sbectrwm, gan y gwelsom fod gan gymhariaeth gyfeiriad cynradd, allanol nad oes gan drosiad, gan gryfhau'r gred fod y testun Cymraeg ychydig yn fwy symudol ar y sbectrwm ac i'w angori yn agosach i'r pegwn ffuglennol na'r un cyfeiriadol.

Hyd yn oed ar lefel iaith, felly, gwelwn fod y raddfa ffuglennol-gyfeiriadol yn ddilys a deinamig a bod cyfeiriadoldeb testunau unigol yn medru amrywio a'u bod felly yn medru llithro rhwng bod yn gyfeiriadol ac yn ffuglennol. Naratifau hanesyddol yw'r fersiwn Ladin a'r fersiwn Gymraeg o'r *Hanes* ac felly maent yn cynnal y gyfeiriadaeth at y byd allanol ac at ffeithiau hanesyddol. Serch hynny, mae'r newid cynnil o ymestyn defnydd y trosiadau yn yr *Historia* Cymraeg yn esiampl o sut y gall naratif hanesyddol fod yn chwareus a sut y gall gymhlethu ei gyfeiriadoldeb heb ei ddisodli yn gyfan gwbl.

Wrth gloi a myfyrio ar ddadansoddi'r *Vita* a'r *Historia* ar lefel facrocosmig y cynnwys ac ar lefel feicrocosmig iaith ac arddull, nodwn fod graddfa symudol Monika Otter

---

[82] 'quo nihil fas est de fabulis pervenire.' Ibid. Noder, fodd bynnag, y byddai awduron eraill yn hapus i ddefnyddio cymariaethau, e.e. dyma Awstin o Hippo yn ystyried dynion sanctaidd fel dannedd yr eglwys: 'et tamen nescio quomodo suauius intueor sanctos, cum eos quasi dentes ecclesiae uideo praecidere ab erroribus homines atque in eius corpus emollita duritia quasi demorsos mansos que transferre' ('Ac eto, wyddwn i ddim paham, ystyriaf ddynion sanctaidd yn felysach pan y'u gwelaf nhw fel dannedd yr Eglwys yn rhwygo dynion i ffwrdd o'u cyfeiliorn, a'u cludo i fewn i gorff yr Eglwys ar ôl esmwytho eu garwedd fel pe taent wedi eu cnoi a'u brathu'), Awstin o Hippo, *De Doctrina Christiana* (Turnhout: Brepols, 2010), ii, pen. 6, ll. 22.

yn fodel defnyddiol a pherthnasol i'r ddwy iaith. Meddai Otter: 'vernacular narrative emancipates itself – not immediately, but gradually over the course of the twelfth century – from the truth-telling requirements that bind Latin writing'.[83] Nodwn fod 'gradually' yn air hollbwysig, oherwydd, fel y gwelsom uchod, nid yw'r gwahanu rhwng Lladin a'r iaith frodorol dan sylw yn sydyn nac yn eglur. Cymylog yw'r gwahaniaeth ar adegau oherwydd, ar y naill law, nid yw'r *Historia* Gymraeg yn bodoli yn gyfan gwbl o fewn ffiniau ffuglen lenyddol gan ei bod yn parhau i'w galw ei hun yn 'hanes' unigolyn, ac ar y llaw arall, nid yw'r *Vita* Ladin chwaith yn glynu'n gyfan gwbl wrth y 'truth-telling requirements' hyn yn y lle cyntaf. Nid yw'n wahaniaeth du a gwyn ac felly sylwn mai graddol a chynnil yw'r 'ymryddhau' hwn rhwng iaith frodorol a Lladin.

Ond mae yna wahaniaeth: gwelwn fod y manion cyferbyniol rhwng yr *Historia* a'r *Vita* yn gwthio'r testun Cymraeg yn nes at y pegwn ffuglennol na'r ffynhonnell wreiddiol. Casglaf, felly, fod y cyfieithydd yn medru troi'n addaswr creadigol ar adegau a phan fo'n gwneud hynny, fe'i gwna dan ddylanwad dadeni trawsnewidiol y ddeuddegfed ganrif. Doed a ddêl, erys y ffaith fod y *Vita* a'r *Historia* yn weithiau gafaelgar a bod storïwyr y ddwy fersiwn, fel y rhan fwyaf o storïwyr yr Oesoedd Canol, yn deall gwerth stori dda.[84]

[83] Otter, t. 16.
[84] Fleischman, t. 280.

## Gweithiau a ddyfynnwyd

### FFYNONELLAU CYNRADD


**Llawysgrifau**

Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
– – Llsgr. Peniarth 434
– – Llsgr. Peniarth 17, tt. 1–16

**Llyfrau**

*A Medieval Prince of Wales: The Life of Gruffudd ap Cynan*, gol. a chyf. D. Simon Evans (Felinfach: Llanerch 1990)

Awstin o Hippo, *De Doctrina Christiana* (Turnhout: Brepols, 2010)

*Breudwyt Ronabwy: allan o'r Llyfr Coch o Hergest*, gol. Melville Richards (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2012)

*Brut y tywysogyon or The chronicle of the princes: Red Book of Hergest version*, gol. a chyf. Thomas Jones, ail argraffiad (Cardiff: University of Wales Press, 1973)

Giraldus Cambrensis (Gerallt Gymro), *Itinerarium Kambriae*, (Turnhout: Brepols, 2011)

Guillelmus Neubrigensis (William of Newburgh), *Historia rerum Anglicarum* (Turnhout: Brepols, 2014)

*Historia Gruffud vab Kenan*, gol. a chyf. D. Simon Evans (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1977)

Isidorus Hispalensis (Isidore of Seville), *The Etymologies of Isidore of Seville*, gol. Stephen A. Barney (Cambridge: Cambridge University Press, 2006)

Macrobius, *Commentarii in Somnium Scipionis* (Turnhout: Brepols, 2010)

Meilyr Brydydd, *Gwaith Meilyr Brydydd a'i ddisgynyddion*, gol. J. E. Caerwyn Williams a Peredur I. Lynch (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992)

*Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1930)

*Richard Coer de Lyon*, gol. Peter Larkin (Kalamazoo: Medieval Institute Publications, Western Michigan University, 2015)

*Vita Griffini Filii Conani: The Medieval Latin Life of Gruffudd ap Cynan*, gol. a chyf. Paul Russell (Cardiff: University of Wales Press, 2005)


### FFYNONELLAU EILAIDD


Bäuml, Franz H., 'Varieties and Consequences of Medieval Literacy and Illiteracy', *Speculum*, 55 (1980), 237–65

Brooke, C., *The Twelfth Century Renaissance* (London: Thames and Hudson, 1969)

Davies, R. R., *Conquest, Coexistence, and Change: Wales 1063–1415* (Oxford: Clarendon Press, 1987)

Davies, Sioned, *Crefft y Cyfarwydd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995)

Davenport, William A., *Medieval Narrative: An Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2004)

*European Transformations – the Long Twelfth Century*, gol. Thomas F. X. Noble a John H. van Engen (Notre Dame, Ind.: University of Notre Dame Press, 2012)

Fleischman, S., 'On the Representation of History and Fiction in the Middle Ages', *History and Theory*, 22 (1983), 278–310

Gale, Richard M., 'The Fictive Use of Language', *Philosophy*, 46 (1971), 324–40

Haahr, Joan Gluckauf, 'William of Malmesbury's Roman Models: Suetonius and Lucan', yn *The Classics in the Middle Ages: Papers of the Twentieth Annual Conference of the Center for Medieval and Early Renaissance Studies*, gol. Aldo S. Bernardo a Saul Levin (Binghamton: Center for Medieval & Early Renaissance Studies, 1990) tt. 165–173

Haidu, Peter, 'Repetition: Modern Reflections on Medieval Aesthetics', *Modern Language Notes*, 92 (1977), 875–87

Haskins, Charles Homer, *The Renaissance of the Twelfth Century*, pedwerydd argraffiad (New York: Meridian Books 1960)

Haug, Walter, *Literaturtheorie im deutschen Mittelalter von den Anfängen bis zum Ende des 13. Jahrhunderts: Eine Einführung* (Darmstadt: Wissenschaftliche Buchgesellschaft, 1985)

Jones, John Morris, *A Welsh Grammar, Historical and Comparative: Phonology and Accidence* (Oxford: Clarendon Press, 1913)

Knape, Joachim, '*Historia*, Textuality and *Episteme* in the Middle Ages', yn *Historia: the concept and genres in the Middle Ages*, gol. Tuomas M. S. Lehtonen a Päivi Mehtonen (Helsinki: Societas Scientiarum Fennica 2000), tt. 11–27

Lloyd, J. E., *A History of Wales: From the Earliest Times to the Edwardian Conquest*, 2 gyfrol (London: Longmans, 1911)
Lloyd-Jones, J., 'The Court Poems of the Welsh Princes', *Proceedings of the British Academy*, 34 (1948), 167–197
Luft, Diana, 'Tracking *ôl cyfieithu*: Medieval Welsh translation in criticism and scholarship', *Translation Studies*, 9:2 (2016), 168–182
Mehtonen, Päivi, *Old Concepts and New Poetics: Historia, Argumentum and Fabula in the Twelfth- and Early Thirteenth-Century Latin Poetics of Fiction* (Helsinki, 1996)
Otter, Monika, *Inventiones: Fiction and Referentiality in Twelfth-Century English Historical Writing* (Chapel Hill and London: University of North Carolina Press, 1996)
Parina, Elena, 'Medical Texts in Welsh Translation: *Y Pedwar Gwlybwr* and *Rhinweddau Bwydydd*' yn *Crossing Borders in the Insular Middle Ages*, gol. Victoria Flood ac Aisling Byrne (Turnhout: Brepols, 2019), pp. 47–63
– – 'The good, the bad and the translator: the concept of predestination in a Middle Welsh translation of *Elucidarium*', *Индоевропейское языкознание и классическая филология*, XXII (2018), 1003–1012
Ricœur, Paul, *Interpretation Theory: Discourse and the Surplus of Meaning* (Fort Worth, TX: Texas Christian University Press 1976)
*– – The Rule of Metaphor: Multidisciplinary Studies of the Creation of Meaning in Language*, cyf. Robert Czerny gyda Kathleen McLaughlin a John Costello (Toronto: University of Toronto Press, 1977)
Roberts, Brynely F., '*Ystoria*', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 26 (1974–5), 13–20
Smith, J. Beverley, 'The Biography of Gruffudd ap Cynan: Literary Form and Historical Interpretation', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 29.3 (2019), 337–376
*– – Yr Ymwybod â Hanes yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol: Darlith Agoriadol = The Sense of History in Medieval Wales: An Inaugural Lecture* (Aberystwyth: Coleg Prifysgol Cymru, 1991)
Southern, R. W., 'Presidential Address: Aspects of the European Tradition of Historical Writing: 4. The Sense of the Past', *Transactions of the Royal Historical Society*, 23 (1973), 243–263
*The Chronicles of Medieval Wales and the March: New Contexts, Studies and Texts*, gol. Ben Guy et al (Turnhout: Brepols, 2020)
Van Hamel, A. G., 'Norse history in *Hanes Gruffudd ap Cynan*', *Revue Celtique*, 42 (1925), 336–44
White, Hayden, *Metahistory: The Historical Imagination in Nineteenth-century Europe* (Baltimore: Johns Hopkins University Press, 1973)
Wickham, Chris, 'Lawyers' Time, History and Memory in Tenth- and Eleventh-Century Italy', yn *Studies in Medieval History Presented to R. H. C. Davis*, gol. Henry Mary-Harting a R. I. Moore (London: Hambledon Press, 1985), tt. 53–71

**ADNODDAU AR-LEIN**

*Dictionary of Medieval Latin from British Sources* <http://www.dmlbs.ox.ac.uk/web/online.html> [cyrchwyd 4 Chwefror 2022]
*Grŵp Ymchwil y Croniclau Cymreig* <http://croniclau.bangor.ac.uk/> [cyrchwyd 4 Chwefror 2022]
*gutorglyn.net*
Guto'r Glyn, 'Moliant i Ddafydd Mathau o Landaf', *Guto'r Glyn.net*, gol. a chyf. Ann Parry Owen <http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem-selection=017> [cyrchwyd 4 Chwefror 2022]
*Oxford Dictionary of National Biography*
Pryce, Huw, 'Gruffudd ap Cynan (1054/5–1137)', *Oxford Dictionary of National Biography* <http://www.oxforddnb.com/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-11693> [cyrchwyd 4 Chwefror 2022]
Love, Rosalind a Francesco Marzella, 'Latin Arthurian literature and the rise of fiction', *Leverhulme Trust* <https://www.leverhulme.ac.uk/research-project-grants/latin-arthurian-literature-and-rise-fiction> [cyrchwyd 4 Chwefror 2022]